| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 25 Ionawr 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Nicola Stubbins |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Nicola Stubbins |
| **Teitl:** | **Diweddaraf ar Uno Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Plant** |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nodi'r diweddariad ar lafar o'r cynnydd a wnaed ar uno Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Plant. Mae'r ddau wasanaeth wedi bod yn gweithredu fel un gwasanaeth, gwasanaethau Addysg a Phlant, ers Ionawr 2016.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Cyflwynir y diweddariad hwn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, fel y ceisiwyd ym mis Ebrill 2016,i roi gwybod ac i gynnig sicrwydd bod cynnydd wedi'i wneud yn y trawsnewidiad i'r gwasanaeth newydd a bod risgiau wedi'u lliniaru.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**
Argymhellir bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r diweddariad.

4. **Manylion yr adroddiad**
Ym mis Medi 2014, datganodd y Prif Weithredwr newidiadau arfaethedig i strwythur sefydliad y Cyngor, gan gynnwys dwyn ynghyd y Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i greu gwasanaeth newydd, Gwasanaethau Addysg a Phlant. Mae hyn wedi bod yn orfodol yn Lloegr ers dros ddegawd ac mae'n fwyfwy cyffredin yng Nghymru.

   Cytunwyd datblygu Prawf Sicrwydd a'i gynnal fel rhan o'r broses o drosglwyddo i'r strwythur sefydliad newydd. Darparodd y Prawf sicrwydd bod dyletswyddau statudol y Cyngor tuag at blant a phobl ifanc yn cael eu cynnal a'u cryfhau drwy'r strwythur sefydliad newydd. Trafodwyd y Prawf ym Mhwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 27 Ebrill 2016. Nodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor a gwnaethpwyd cais am adroddiad cynnydd er mwyn dychwelyd i'w ystyried.

   Adolygwyd y Prawf Sicrwydd gan y gwasanaeth newydd ym mis Medi 2016. Cadarnhaodd yr adolygiad hwn bod y gwasanaeth newydd yn cydymffurfio ag atebolrwydd statudol ac nad oedd unrhyw risgiau posib wedi dod i'r amlwg neu cawsant eu lliniaru fel bo'n briodol. Caiff y risgiau hyn nawr eu hadolygu gan ddefnyddio cofrestr risg Cynllun Busnes y Gwasanaeth. ,Derbyniodd y gwasanaeth newydd yr Her Gwasanaeth gyntaf ym mis Hydref 2016 ac roedd y llinellau ymholiad yn ymchwilio i uniad y Gwasanaethau Addysg a'r Gwasanaethau Plant, ond ni fu unrhyw gamau gweithredol o ganlyniad i'r trafodaethau hynny.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Prif ganlyniad y newid yw gwelliant ar unwaith mewn gwaith colegol rhwng y gwahanol grwpiau. Gallu'r gwasanaeth newydd i symud yn gyflym yn ei ymateb i anghenion plant a phobl ifanc yn y sir, er mwyn sicrhau eu diogelwch a'u cefnogi i gyrraedd eu potensial trwy addysg a chyfleoedd cymdeithasol. Yn hyn o beth, mae uno'r gwasanaethau'n alinio â'r flaenoriaeth gorfforaethol bod "pobl ddiamddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol ag y bo modd" a'r amcan o "wella ein perfformiad mewn Addysg".

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Mae uno'r Gwasanaethau Addysg a'r Gwasanaethau Plant wedi bod yn niwtral o ran cost.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**
Nid oes angen Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y diweddariad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**
Nid oedd angen ymgynghoriadau ar gyfer y diweddariad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Nid oedd angen datganiad ar gyfer y diweddariad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Adolygwyd y risgiau fel rhan o'r Prawf Sicrwydd a chaiff unrhyw risg parhaus ei fonitro gan ddefnyddio cofrestr risg Cynllun Busnes y Gwasanaeth.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Nid oes cais am benderfyniad